# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ2086(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Nick Bourne:**

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 28 Tachwedd, mewn ateb i'ch cwestiwn ar dargedau newid yn yr hinsawdd, cytunais i roi manylion i chi ar y cynnydd tuag at gyrraedd targed Llywodraeth y Cynulliad i leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr o 20 y cant erbyn 2020.

Mae'r cynnydd yn erbyn y targed 20 y cant erbyn 2020 (yn seiliedig ar waelodlin 2000) yn dangos bod gollyngiadau nwyon tŷ gwydr Cymru wedi lleihau 5 y cant o'r gwaelodlin hwnnw.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y bygythiad difrifol a grëir gan newid yn yr hinsawdd a maint yr her wrth fynd i'r afael ag ef, a bu i'r Cabinet ystyried materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn ddiweddar. Yr ydym yn ymrwymedig i chwarae ein rhan er mwyn ymdrin â'r achosion a'r canlyniadau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn nodi'r weledigaeth ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru hyd at 2026 ac mae'n amlygu'r ffaith bod mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn flaenoriaeth allweddol. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymrwymiadau a wnaed eisoes yn y Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy, er enghraifft.

Yn ogystal â'r ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, mae gwaith sylweddol eisoes yn mynd rhagddo i gyrraedd targed 2020, er enghraifft:

- Mae'r cynigion ar gyfer arian cydgyfeirio eisoes yn cynnwys y syniad o fframwaith strategol ar y cyd rhwng yr Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau ar newid yn yr hinsawdd
- Bydd y prosiect adeiladau cynaliadwy yn cyflwyno adroddiad ym mis Ionawr, ac mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i wneud y defnydd gorau posibl o'r system cynllunio er mwyn sicrhau adeiladau mwy cynaliadwy
- Cyhoeddir ymgynghoriad ar gynllunio a newid yn yr hinsawdd yn ystod y mis hwn
- Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i baratoi fersiwn terfynol o fap llwybr ynni Cymru

Yr ydym hefyd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth y DU ar ddatblygu Mesur Newid yn yr Hinsawdd, a fydd yn cynnwys trafodaethau am dargedau.